FfMLlW27

FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM

COFNODION WEDI'U CADARNHAU

O'r seithfed cyfarfod ar hugain a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Wrecsam 9 Tachwedd 2007

37/07 PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU

Presenoldeb:

CADEIRYDD
Clive Menzies

YSGRIFENYDDES
Emma Haldane

AELODAU
John Cooper-Poole
Mike Crawshaw
Sue Gittins
John Marchant
Gerald Moss
Margaret Murphy
Tim Roselli
Mabyn Pickering
Karl Prakel
Shelagh Roberts

DDIM YN AELODAU
Martin Howorth
Alun Price (CCGC)
Michael Morris
(*LIFE* gorgors weithredol)
Charlotte Flett (HT)
Sean Hanratty (arweinydd tîm)

Ymddiheuriadau: Edward Wardle, Mavis McBride

38/07 *LIFE* Gorgors Weithredol ar y Berwyn

Rhoddodd Michael Morris, Swyddog Ymgynghorol Prosiect *LIFE* gyflwyniad ar y gwaith adfer sy'n digwydd ar hyn o bryd ar y Berwyn. Lansiwyd y prosiect ym mis Awst 2006 mewn partneriaeth gyda'r gymdeithas gwarchod adar (RSPCA), Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru gyda bwriad o adfer yr orgors weithredol. Er bod ardaloedd eang o orgors weithredol yng Nghymru eglurodd Michael fod y mwyafrif wedi'u diraddio oherwydd coedwigo, planhigion fel rhododendron yn meddiannu'r tir, gorbori, sychu'r tir a llosgi, boed fwriadol neu anfwriadol.

Ffurfiwyd y corsydd drwy gyfuniad o hinsawdd wlypach a achosodd i'r tir fod yn llawn dŵr a thrwytholchi'r priddoedd a hynny'n annog mwsoglau cors i ddatblygu, a

chlirio coedwigoedd gan ddyn. Hefyd, roedd cael gwared â'r coed yn gwneud y tir yn wlypach, yn gwneud yr ardaloedd yn llai cynaliadwy gan annog tyfiant mwy o fwsoglau cors.
Mae tîm y prosiect *LIFE* eisoes wedi dechrau cau draeniau ar yr orgors er mwyn iddi gadw'i dŵr unwaith eto.

Gobeithiwyd y byddai gwelliant sylweddol a pharhaus yng nghyflwr dwy orgors mewn dwy ardal gadwraeth (ACAau) yng ngogledd Cymru yn ystod prosiect 5 mlynedd *LIFE* 'Gorgors yng Nghymru'

39/07 Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 31 Awst 2007

40/06 Ymglymiad Ieuenctid

Er mwyn cael mwy o bobl ifanc i gyfranogi cytunodd yr ysgrifenyddes gysylltu â myfyrwyr NEWI ar ôl cofrestriad mis Medi. Ystyriwyd y gallai myfyrwyr amgylcheddol ddod ag atborth gwerthfawr i'r FfMLl. Dim ymateb hyd yn hyn.
Ysgrifenyddes i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf

Cyflwynwyd Charlotte Flett, prentis modern sydd newydd ymuno â'r tîm hawl tramwy, i'r cyfarfod gan John. Nod y cynllun hwn yw cynnig cyfle i bobl ifanc ennill cymwysterau ynghyd â phrofiad gwaith parhaus dros gyfnod o 3 blynedd. Eleni mae'r Awdurdod wedi recriwtio tuag 16 o bobl ifanc ledled y Cyngor. Dywedodd Charlotte ei bod wedi dod i wybod mwy am yr adran hawl tramwy a'i bod yn gwerthfawrogi cymaint o waith y mae'r adran gyfan yn ei wneud.
Diolchodd y Cadeirydd a'r aelodau i Charlotte am rannu ei phrofiadau gwaith gyda'r cynllun.

Teimlai Mabyn bod safon y mapiau arolwg 5 mlynedd a gynhyrchwyd yn ardderchog a hoffai fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Is-adran Hawl Tramwy am ei holl waith caled.

30/07 Cynllun Gwella Hawl Tramwy
Atebolrwydd Llwyr

Roedd gan aelodau bryderon am y baich a roddir ar dirfeddianwyr a phreswylwyr os gweithredir atebolrwydd llwyr a'r gost o ddargyfeirio llwybrau. Cytunwyd y byddai anfon llythyr at ASau Wrecsam yn gofyn iddynt gefnogi'r ddeddfwriaeth sy'n mynd drwy'r senedd ar hyn o bryd yn fuddiol. Ysgrifennodd yr ysgrifenyddes ar 26 Medi. Cafwyd un ymateb gan Martyn Jones AS.
Cytunodd y cadeirydd i drafod hyn ar lefel genedlaethol.

32/07 Traed a'r Genau

Cyfarwyddiadau aneglur yn dal i ddod oddi wrth DEFRA. Teimlwyd nad oedd neges glir am sut y dylid gweithredu.
Cytunodd y cadeirydd drafod hyn yn y cyfarfod cenedlaethol nesaf i gadeiryddion.

33/07 DMMO

Croesawodd yr aelodau Sean Hanratty i'r Fforwm. Roedd Sean wedi'i gyflogi'n Arweinydd Tîm gan yr Is-adran Parciau, Cefn Gwlad a Hawl Tramwy i weithio ar orchmynion y Mapiau Diffiniol.

34/07 Unrhyw fater arall

- ***Cŵn yn baeddu***
  Roedd pryderon wedi'u mynegi am faint o faw cŵn a gesglir mewn bagiau plastig a'u gadael ynghlwm wrth lwyni, pontydd a choed drwy diroedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Erddig. Cytunodd yr ysgrifenyddes ysgrifennu am y pryderon.
  GWEITHREDU: Llythyr wedi'i anfon 25 Medi – Dim ymateb hyd yn hyn.

40/07 Adroddiad y cadeirydd (yn cynnwys materion cenedlaethol)

Ar ôl derbyn y swydd o gynrychiolydd cenedlaethol llynedd, daeth yn amlwg nad oes dull wedi'i osod ar gyfer gyrru prosesau yn eu blaenau. O brofiad, pan roddai rhai cynrychiolwyr gynigion gerbron teimlai eraill yn anniddig na fedrent gynrychioli eu FfMLl ar ambell fater heb gael yr awdurdod i wneud hynny ymlaen llaw. O'r herwydd roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at bob cadeirydd FfMLlA fel cynrychiolydd cenedlaethol i ofyn am roi cynnig gerbron yn lleol. Roedd y cynnig yn gofyn am roi'r awdurdod i'r cadeirydd, neu unigolyn a fyddai'n ddirprwy iddo, i gynrychioli'r FfMLl mewn cyfarfodydd i ddod. Wedyn byddai gan y cadeirydd, neu unigolyn yn dirprwyo, yr hawl i gytuno ac i arwain y cynrychiolydd cenedlaethol sut i weithredu gan gofio ystyried barn y FfMLl ar y materion hyn.
CYTUNWYD AR Y CYNNIG

41/07 Adroddiad yr ysgrifenyddes

- Adroddodd yr ysgrifenyddes y gellir gweld logo newydd FfMLl ar wefan Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam www.wrexham.gov.uk/laf
- Fel rhan o'r strategaeth cyfathrebu, cytunodd yr ysgrifenyddes drefnu amserlen ar gyfer 2008:

DYDDIAD	LLEOLIAD
8 Chwefror 2008(dydd Gwener)	1.30pm yn Ystafell Bwyllgor 3, Neuadd y Dref
Mai 2008 (dydd lau)	Brymbo – disgwyl cadarnhad o'r dyddiad a'r amseroedd
7 Awst 2008 (dydd lau)	Neuadd y Pentref, Owrtyn – disgwyl cadarnhad o'r amseroedd.
7 Tachwedd 2008 (dydd Gwener)	1.30pm yn Ystafell Bwyllgor 3, Neuadd y Dref

Cylchlythyrir cadarnhad o'r dyddiadau uchod i aelodau cyn hir.

- Er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach, rhoi sylw i agendâu a chrynodeb byr o faterion yn y wasg leol, ynghyd â phosteri yn dangos dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd.
  Cytunodd yr aelodau osod posteri yn eu cymunedau lleol.

42/07 Cynllun Gwella Hawl Tramwy

Rhoddodd Martin Howorth, Rheolwr Parciau, Cefn Gwlad a Hawl Tramwy adroddiad ar y cynnydd hyd yn hyn.
Mae'r cynllun terfynol wedi cael sêl bendith y Bwrdd Gweithredol a gellir ei weld a'i lawrlwytho o wefan y Cyngor i fformat PDF.

Roedd Martin wedi trefnu i nifer cyfyngedig o gopïau caled a disgiau gael eu cyhoeddi.
GWEITHREDU: Aelodau i roi gwybod i'r ysgrifenyddes am eu fformat dewisol.
Bu Martin yn rhoi diweddariadau rheolaidd ynghylch y Cynllun Gwella Hawl Tramwy fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y fforwm yn y gorffennol. Rhaid i aelodau benderfynu a ydynt am i hyn barhau neu a fyddai'n well ganddynt ddiweddariad unwaith neu ddwywaith y flwyddyn.
GWEITHREDU: Aelodau i roi gwybod yn y cyfarfod nesaf.

Llongyfarchwyd Martin a'i adran gan yr aelodau am eu holl waith caled yn cwblhau'r cynllun gan ddiolch i'r tîm am y gwaith gwych a wnaed. Nodwyd bod Wrecsam wedi gorffen cyn yr awdurdodau cyfagos, Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

Bu pryder am sefyllfa gyfredol y gyllideb a'r dyraniad cyllidebol ar gyfer 2008 a faint o adnoddau ariannol a roir i'r Is-adran Hawl Tramwy.
GWEITHREDU:

- **Cytunodd y cadeirydd godi'r pryderon yn y cyfarfod cenedlaethol nesaf i gadeiryddion.**
- **Cytunodd y cadeirydd ysgrifennu at y Prif Weithredwr a'r Arweinydd, gyda gwahoddiad i ddod i'r cyfarfod nesaf ym mis Chwefror.**

43/07 Adroddiad gan y ceidwaid mynediad

Cyflwynodd John Marchant adroddiad a baratowyd gan ddau geidwad mynediad am y gwaith sydd ar waith ar hyn o bryd:

- Mae'r gwaith ym Mrymbo yn dod tua'i derfyn gydag un darn o waith yn unig i'w gwblhau. Cyhoeddir adroddiad i'r wasg ar y cyd â *Groundwork* cyn hir. Mae mwyafrif yr arwyddion ffordd newydd wedi'u gosod ac mae'r holl gyfeirbwyntio wedi'i orffen.

- Roedd Coedpoeth ar amser, y llwybrau i gyd wedi'u mesur ac mae *Groundwork* yn trefnu amserlen waith ar hyn o bryd.

- Roedd Sean wedi bod yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn ymdrin ag ôl-groniad o gwynion cyffredinol y mae'r Cyngor yn eu derbyn ac yn cysylltu gyda chontractwyr.

- Yn ddiweddar mae contractwr y Cyngor wedi gosod cyfanswm o 60 o arwyddion newydd gyda phen y daith wedi'u hamlygu arnynt o amgylch Brymbo fel rhan o'r prosiect llwybrau. Mae hefyd ar fin dechrau clirio / brwsio amryw o lwybrau sydd â graddiant serth a grisiau fel rhan o'r rhaglen cynnal a chadw hawliau tramwy cyhoeddus yn y gaeaf.

- Mae Gwasanaethau Adeiladu'r Cyngor i ddechrau gwaith atgyweirio llwybr ceffylau rhif 10 sy'n rhedeg rhwng Ffordd y Ficerdy a Lôn y Glyn ym Mrymbo. Mae'r llwybr ceffyl wedi'i gau ers tro byd ar ôl i geuffos gwympo.

- Bydd Sean yn cyfarfod Cymdeithas y Cerddwyr yn gynnar fis Rhagfyr i drafod amryw o faterion cynnal a chadw ar lwybrau ledled y Sir.

- Mynegwyd pryderon ynghylch erydu llwybr rhif 1A ger Pont Hafodgynfawr / Swyddfa'r Post yng Nghlynceiriog. Cyfarfu Sean staff yr Asiantaeth Amgylchedd yn ddiweddar i drafod sicrhau glan yr afon gyda basgedi caergawell i rwystro ychwaneg o erydu.

44/07 Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Rhoddodd Alun Price, CCGC ei adroddiad diweddaraf i'r fforwm.
Adroddodd na fu unrhyw waharddiadau na chyfyngiadau yng ngogledd Cymru.
Mae'r Newyddlen Hamdden a Mynediad ddiweddaraf yn cylchredeg ar hyn o bryd.
Byddai croeso mawr i erthygl o Wrecsam yn y dyfodol.
GWEITHREDU: Ysgrifenyddes i gysylltu gyda'r cadeirydd

Mae Martin ac Alun wedi bod yn cydweithio ar grantiau i gynorthwyo cyllido gwaith sydd ar fynd yn Wrecsam ar hyn o bryd.
CYTUNWYD: Alun i adrodd am gyllido cyfredol yn y cyfarfod nesaf fis Chwefror.

45/07 Ceisiadau cynllunio

Cytunwyd:
Y dylid ymgynghori gyda FfMLlau ynghylch pob cais cynllunio lle byddai gweithredu'r cynllun yn ardaro ar brofiad defnyddwyr hawl tramwy lleol, tir mynediad a chyfleoedd mynediad eraill. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gynllun a fyddai'n effeithio ar brofiadau gweledol neu glywedol defnyddwyr.

46/07 Parcio mewn encilfa

Oherwydd prinder amser, ni ddaethpwyd o hyd i arian cyfatebol ar gyfer cais diweddar a wnaed i Ogledd Gororau Cymru. Adroddodd Martin fod cyfle i fynd yn ôl eto yn y dyfodol.
Nodwyd o'r blaen bod 'Parcio oddi ar y Ffordd' yn broblem mewn rhai cymunedau gwledig. Roedd problem benodol wedi'i hamlygu yn Nyffryn Ceiriog. Credai Mike Crawshaw y byddai arwyddion mewn lleoedd pasio yn helpu i leddfu'r broblem, ond nid yw'r adran briffyrdd yn ystyried y rhain yn lleoedd pasio. Mae'r broblem yn parhau.
GWEITHREDU: Cytunodd y cadeirydd fynd â'r broblem ymlaen i lefel genedlaethol.

47/07 Unrhyw fater arall

- **Hawliau tramwy'r cyhoedd – Arolwg 5 mlynedd**
  Rhoddodd John ddiweddariad pellach am yr arolygon a gwblhawyd a'r rhai sydd bron â'u cwblhau.
  Diolchodd i'r aelodau eto am eu holl waith caled wrth gynorthwyo i gwblhau'r arolwg hwn.
- **Arwyddion**
  Cafwyd trafferthion with gael mynediad i lwybr penodol yn ardal Llanarmon DC. Dioddefodd yr ardal hon erydu yn agos at yr afon ac roedd bellach yn eithaf peryglus, a hynny yn ei dro yn cyfyngu'r mynediad i rannau o'r llwybr. Cododd rhywfaint o ddryswch ynghylch y geiriau ar yr arwydd a osodwyd. Cytunodd John fynd i ymchwilio ymhellach.
- **Llwybrau drwy fuarth ffermydd**
  Codwyd y mater hwn o'r blaen (*30/07*). Amlygwyd fod teimlad cyffredinol nad oedd pobl yn hoffi cerdded drwy ffermydd a theimlwyd y dylid trefnu gwyriadau.

Roedd gan aelodau bryderon am y baich a roddid ar dirfeddianwyr a phreswylwyr wrth weithredu atebolrwydd llwyr a chyda'r gost o wyro llwybrau.
CYTUNWYD: Cadeirydd i'w godi'n genedlaethol

- **Gyrru oddi ar y ffordd**
  Roedd gan Mike bryderon ynghylch y difrod a wneir gan gerbydau 4x4 ger ardal Dyffryn Ceiriog. Teimlwyd ei bod yn broblem genedlaethol. Dywedodd y cadeirydd bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymwybodol o'r llu o gynlluniau sydd ar waith i geisio rheoli gyrru oddi ar y ffordd yn gyfreithlon ac anghyfreithlon. Dywedodd Alun fod CCGC yn cydweithio gyda'r heddlu i geisio datrys y broblem.
- **Llwybr**
  Mae problem wedi'u hamlygu gyda llwybr ger Gorsaf Legacy, a oedd wedi'i glustnodi ar gyfer hawl tramwy yn y dyfodol. Roedd y Cynghorydd Mark Pritchard wedi bod yno i ymweld gyda John a chanfod bod rhwystr wedi'i roi ar draws y lôn yn arwain heibio Bwthyn Legacy**.** Cytunodd Sean y byddai'n ymchwilio i'r mater ac y dylid gwneud cais am orchymyn addasu map diffiniol.

48/07 Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf

- Cyllideb

49/07 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf

Prynhawn Gwener, 8 Chwefror 2008 am 1.30 pm yn Ystafell Bwyllgor 3, Neuadd y Sir, Wrecsam